# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Llun, 10 Mehefin 2019 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr C Evans (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, G Berry, J Clarke, D Fouweather, I Hayat, J Richards and D Williams<br><br>Gareth Price (Head of Law & Regulation), Meirion Rushworth (Head of Finance), Emma Johnson, Andrew Wathan (Chief Internal Auditor), Rhys Cornwall (Head of People and Business Change), Tracy McKim (Partnership Policy & Involvement Manager) and Daniel Cooke (Cynghorydd Craffu) |
| Yn bresennol: | R Truman and D Mayer |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr K Critchley |

---

1 **Agenda yn Gymraeg / Agenda in Welsh**

2 **Ymddiheuriadau**

3 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

4 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019**

Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019 fel cofnod gwir a chywir.

5 **Adolygiadau Diwedd Blwyddyn 2018-19 ar y Cynllun Gwasanaeth**

**Cyfraith a Safonau**

Yn Bresennol:

- Cynghorydd Ray Truman, yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio
- Gareth Price, Pennaeth y Gyfraith a Rheoliadau

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Dywedwyd wrth aelodau y bu lefel barhaus o berfformiad drwy gydol 2018/19 wrth gyflawni'r Mesurau Perfformiad ac wrth gyflawni'r projectau allweddol o fewn y Cynllun Gwasanaeth, fodd bynnag arhosodd y Mesurau Perfformiad ac amcanion yn heriol, yn enwedig mewn cyfnod o adnoddau sy'n lleihau a galw cynyddol. Roedd perfformiad mewn perthynas â dosbarthu erlyn a datrys cwynion Diogelu'r Cyhoedd wedi gostwng yn ychydig oherwydd absenoldeb salwch yn y ddau dîm, fodd bynnag adlewyrchodd hyn lefel dda o ran perfformiad.

Roedd y gwasanaethau ar y pryd yn rhagweld tanwariant o £170,000 ar gyfer 2018/19, yn erbyn cyllideb net o £6.9 miliwn. Er gwaethaf pwysau'r gyllideb, roedd gwaith da yn cael ei wneud ac roedd Swyddogion yn gwneud eu gorau i gynnal gwasanaethau o ansawdd uchel. Hefyd dywedodd yr Aelod Cabinet wrth y Pwyllgor y cafodd y Gwasanaeth Cofrestru ei gymeradwyo'n allanol yn dilyn cael ei archwilio gan Swyddog y Gofrestr Gyffredinol fel "gwasanaeth sy'n perfformio'n uchel" a chyflwynwyd gwobr CAWF Safon Aur i Gynelau Cŵn Casnewydd am eu gwaith gyda chŵn strae, a oedd yn dda iawn i'r Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- **(Amcan 1)** Cwestiynodd yr aelodau y datganiad yn y Diweddariad Diwedd Blwyddyn ar Dudalen 24, "*Bydd strwythur rheoli mwy syml yn rhoi pwysau cynyddol ar staff rheoli a goruchwylio ac mae'n rhaid ystyried hyn o ran cynllunio gwaith yn y dyfodol" a gofynnant a fyddai hyn yn bryder er mwyn bwrw targedau, ac a fydd mwy o bwysau ar reolwyr?* Rhoddwyd cyd-destun i aelodau o ailstrwythuro'r adran Diogelu'r Cyhoedd, a ddechreuodd 18 mis yn ôl, pan gafodd y strwythur rheoli ei symleiddio a chafodd y swydd fel Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd ei dileu. Roedd hyn wedi gweithio, ond er mwyn darparu strwythur newydd bu'n rhaid i'r Adran edrych ar y ffordd roedd y gwasanaethau'n cael eu darparu. Roedd ymagwedd thematig i ddarparu gwasanaethau, a rhoddodd y Swyddog enghraifft o'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda Swyddogion Iechyd Amgylcheddol er diogelwch y gymuned.

  Roedd timau llai yn gweithio mewn pwysau'r gyllideb yn darparu gwasanaethau statudol o hyd ac yn bwrw targedau yn nhermau amcanion y Cynllun Gwasanaeth. Nid oedd y pryderon yn digwydd ar hyn o bryd, ond yn bosibl yn y dyfodol gydag arbedion y gyllideb a galw cynyddol am wasanaethau.
- **(Amcan 4)** Cwestiynodd aelodau y statws diwedd blwyddyn ar dudalen 34 sy'n dangos fel "Ar y gweill" fodd bynnag ar dudalen 42 mae'n dangos fel Ambr " Yn Brin o'r Targed" a gofynnant ai'r un darn o waith oedd hwn? Dywedodd yr aelodau y byddai'r mesur perfformio hwn yn barhaus oherwydd bod atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broses barhaus ac nid oedd yn broject terfynol, felly byddai wedi bod yn anodd ei farcio fel Gwyrdd – "Ar Darged". Roedd y pwysau perfformio o'r braidd wedi gostwng i mewn i'r Ambr ac roedd bron wedi'i ddatrys, felly gallai'r gwasanaeth gyfiawnhau codi'r meincnod, fodd bynnag roedd angen iddo fod yn realistig oherwydd adnoddau oedd ar gael. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau am y gyfradd ragorol, ac roedd unrhyw beth dros 90% yn berfformiad rhagorol.
- A gafodd effaith deddfwriaeth yr Iaith Gymraeg effaith fwy na'r disgwyl ar y gwasanaeth, megis cael trafferth i ddod o hyd i staff i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg pe byddai angen? Dywedodd y Pwyllgor nad oedd yn fwy, oherwydd rhagwelwyd yr effaith. Fodd bynnag roedd wedi cael effaith ariannol ar ochr y Tîm Llywodraethu oherwydd bod angen cyfieithu'r Agenda a'r Cofnodion i Gymraeg. Ni fu'r gwasanaethau sy'n wynebu am ymlaen yn broblem, oherwydd y cafodd cofrestriadau adeiladu bob amser eu gwneud yn Gymraeg ac oherwydd cydweithio gyda chynghorau eraill, gallai Casnewydd wneud cais i ddefnyddio ei siaradwr Cymraeg yn ôl yr angen.

  Bu anhawster o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg yn y Brif Dderbynfa.
- Gwnaed sylw am y statws "Ar y gweill" ac i ba gyfeiriad oeddent yn tueddu? Oeddent yn cynyddu'n dda neu beidio? Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyfeiriadau teithio yn cael eu dangos ar ddiwedd adroddiad y gwasanaeth. Roedd ystod amrywiol o wasanaethau sy'n barhaus, fel y byddant yn dangos fel "Ar y Gweill", ond mae'n bosibl y byddai'n rhaid i'r gwasanaeth gynnwys cerrig milltir. Roedd Swyddogion wedi dangos yn naratif yr adroddiad nifer o ddyddiadau allweddol yr oedd y gwasanaeth yn anelu at gwrdd â nhw.
- **(Amcan 4)** Cwestiynodd yr aelodau Sylw'r Gwasanaeth "*Mae'r gyfradd datrys dros 90% yn barhaus ond gostyngodd perfformiad ychydig bach dros y ddau chwarter diwethaf oherwydd nifer y ceisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd" a gofynnwyd a oedd pryder ar gyfer y dyfodol o gael mwy o geisiadau?* Dywedwyd wrth yr aelodau bod y

Gwasanaeth wedi sylwi patrwm y gwynion a phrofiad y gorffennol oedd bod cwynion yn tueddu dod i'w hanterth ym misoedd yr haf. Bu rhywfaint o gymhlethdod i rai o'r ceisiadau diweddarach yn 2-3 mis diwethaf y flwyddyn, a oedd wedi cael effaith ar ddyrannu adnoddau yn y gwasanaeth

- A oedd y Cyngor yn cyrraedd y safon o ran archwilio mangreoedd bwyd? Eglurwyd na chafodd 100% o fangreoedd bwyd eu harchwilio yn ystod blwyddyn oherwydd adnoddau cyfyngedig, fodd bynnag rhoddwyd blaenoriaeth i fangreoedd a ddosberthir o A i C, neu leoedd risg uchel. Bu ariannu cychwynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn i fangreoedd a ddosberthir o C i E gael eu harchwilio. Pe bai'r cyllid hwn wedi'i ddarparu yn gynharach yn y flwyddyn, gallai fod wedi'i ddefnyddio'n gynharach, fodd bynnag gwnaeth gwahaniaeth ar ôl-groniad yr archwiliadau. Dywedwyd wrth yr aelodau, heb gyllid o'r fath, mae'r Cyngor yn archwilio mangreoedd gyda sgôr A i C yn rheolaidd a mangreoedd bwyd newydd o fewn 28 diwrnod.

***Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.***

**Cyllid**

***Yn Bresennol:***

- Meirion Rushworth, Pennaeth Cyllid
- Andrew Wathan, Prif Archwilydd Mewnol
- Emma Johnson, Rheolwr Casglu Incwm
- Richard Leake, Rheolwr Caffael

***Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Gyllid drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Gwnaed cynnydd da y llynedd, gyda llawer o gamau gweithredu yn cael eu Cwblhau neu Ar y Gweill. Ymestynnodd nifer o gamau gweithredu i mewn i'r flwyddyn gyfredol hon a'r tu hwnt, ac roedd y Gwasanaeth wedi cychwyn ar y mwyafrif ohonynt. Roedd perfformiad yn gymharol dda; roedd un dangosydd perfformiad yn unig wedi methu'r targed a daeth un yn agos. Daeth y Gwasanaeth i mewn ychydig o dan y gyllideb.***

***Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:***

- Sylwodd yr aelodau ar yr arbedion o £30miliwn o arbedion yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu gwneud a gofynnant faint y gallai'r Cyngor ei gynnal gan ddyledion ac ôl-ddyledion, a oedd y Cyngor yn mynd at y rhai sydd mewn dyled a'u cyfeirio at asiantaethau megis Cyngor ar Bopeth? Dywedodd y Rheolwr Casglu Incwm, gydag ôl-ddyledion ni fyddai'r swm dyledus yn cyrraedd £30miliwn. Roedd y Cyngor wedi mabwysiadau protocol Casglu Treth Gyngor Llywodraeth Cymru a osododd targedau lefel uchel a sut i ymdrin â chasglu ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae un rhan o'r protocol yn ymwneud â phreswylwyr yr oedd ôl-dyledion ganddynt yn gweithio gyda sefydliadau'n i edrych ar achosion y dyledion a ffyrdd o symud ymlaen gan sicrhau na wnaed eu hamgylchiadau personol yn waeth. Bu'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid megis Newid Sylweddol a'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian er mwyn helpu i ddod o hyd i ffordd ymlaen a lleihau dyled unigolyn. Roedd y gwaith hwn yn parhau ar hyn o bryd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adran yn gweithio'n galed i sicrhau polisïau a'r ffordd y mae'r Cyngor yn casglu ôl-ddyledion yn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y ddeddfwriaeth wedi cyflwyno seibiant o chwe wythnos i bobl yr aethpwyd atynt ynglŷn â dyled y Dreth Gyngor, fodd bynnag, roedd y Cyngor yn gwneud hyn eisoes.

***Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Gyllid fod y Cyngor wedi cael rhywfaint o lwyddiannau wrth gasglu dyledion anodd, fodd bynnag, y brif broblem oedd ymgysylltu, ond roedd pob modd ar gael yn cael ei ddefnyddio er mwyn galluogi casglu dyledion anodd.***

- Parthed Dangosyddion Perfformiad, Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng "Yn Brin o'r Targed" ac "Oddi ar y Targed". Dywedwyd wrth yr aelodau ei fod yn perthyn i'r ganran o fethu'r targed. Pe bai'n is na'r ganran targed byddai Oddi ar y Targed. 15% yn uwch o'r targed oedd y terfyn.

- Gwnaed sylwadau ynglŷn â thoriadau mewn cyllid i'r Swyddfa Cyngor ar Bopeth. Pa mor dda oedd y Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid ac a oeddent yn gweithio gydag elusennau eraill? Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Gwasanaeth Cyngor ar Arian yn wasanaeth ar-lein, a byddai tîm y Dreth Gyngor, ar y dechrau, yn cyfeirio cwsmeriaid ato pe bai problemau ganddynt. Hefyd mae'r Cyngor yn ymdrin â Pobl, Cartrefi Dinas Casnewydd ac roedd pobl yn tueddu i fynd at Gyngor ar Bopeth. Weithiau gallai ymgysylltu fod yn broblem, oherwydd weithiau ni fydd cwsmeriaid yn dweud wrth y Cyngor am broblemau ond pan fyddant yn gwneud hynny, gallent eu cyfeirio at ffyrdd o'u helpu
- A fu unrhyw ryngweithio gyda grwpiau ffydd, mosgiau er mwyn ymgysylltu â'r poblogaethau sy'n anodd eu cyrraedd yng Nghasnewydd, ac a oedd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y cymunedau amrywiol y gellir effeithio arnynt pan gymerir unrhyw benderfyniadau ariannol? Dywedwyd wrth yr aelodau na fu angen unrhyw newidiadau o ran polisïau heblaw am y diddymiad Tai Gwag. Pan ddigwyddodd y newid penodol hwnnw, cafodd Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb ei gynnal er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar y cymunedau a ddiogelir. Parthed materion ynghylch casglu'r dreth gyngor, nodwyd rhwystrau iaith, ond mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i fodloni anghenion y cwsmer.
- Cwestiynodd aelodau y sylw ar dudalen 50 yr adroddiad, yr ail baragraff "*Bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn cynnal asesiad risg ar bob honiad o dwyll/llygredd a dderbynnir o unrhyw ffynhonnell ac yn penderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach neu beidio. Ar y cyd â Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol bydd y Prif Archwilydd Mewnol hefyd yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r mater at yr Heddlu."* Gofynnwyd a gafodd mater ei gyfeirio at yr Heddlu a fyddai Aelodau a/neu'r Arweinydd wedi bod yn rhan ohono? Dywedwyd wrth yr Aelodau y rhoddid gwybod i'r Arweinydd o unrhyw gyfeiriadau. Câi Aelodau Etholedig wybod am unrhyw benderfyniadau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol i fynd â'r fath fater at yr Heddlu, ond ni fyddent yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.
- Gofynnodd yr Aelodau pam gafodd statws diwedd blwyddyn cam gweithredu 2.04 ar dudalen 50, sef Codi Ymwybyddiaeth o Bolisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ei labelu fel "Wedi'i Stopio". Dywedwyd wrth yr aelodau bod y gwasanaeth yn parhau i godi ymwybyddiaeth o lygredd fel rhan o fusnes fel arfer, ac er nad oedd wedi'i gwblhau, roedd yn cael ei ddilyn o hyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.

**Pobl a Newid Busnes**
***Yn Bresennol:***
- Cynghorydd David Mayer, yr Aelod Cabinet dros y Gymuned ac Adnoddau
- Rhys Cornwall, Pennaeth Pobl a Newid Busnes
- Tracy McKim, Rheolwr Partneriaeth ac Ymglymiad Polisi

***Cyflwynodd Pennaeth Pobl a Newid Busnes drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Dywedwyd bod tri mesur perfformiad oddi ar y targed yn Goch, sef: "% o heriau i ddarpariaeth yr iaith Gymraeg i fyny'r tir"; "Nifer y cyflogeion a hyfforddwyd mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg" a "Nifer y staff a hyfforddwyr yn Prevent PVE". Roedd y ffigyrau hyfforddi'n sylweddol is oherwydd nifer o newidiadau i staffio a cholli darparwr blaenorol y cyrsiau.***
***Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:***
- Beth oedd yr achos mwyaf o salwch yn yr awdurdod, ac oedd unrhyw wasanaethau y gellid cyfeirio staff atynt. Dywedwyd wrth yr aelodau bod salwch tymor byr yn rhesymol o isel, fodd bynnag y ddau fater hirdymor mwyaf oedd problemau cyhyrol a straen a allai fod yn perthyn i'r gwaith neu'r cartref. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau eraill yr un peth. Gall problemau cyhyrol fod yn gyffredin mewn gwasanaethau megis Gwasanaethau'r Ddinas lle y mae staff yn codi eitemau neu'n gwneud gwaith llaw. Hefyd mae gan y Cyngor adran Iechyd Galwedigaethol y gall rheolwyr gyfeirio staff

iddi. Roedd nifer o bolisïau ar waith megis gweithio hyblyg, gweithio ystwyth a phrynu gwyliau blynyddol ychwanegol i leddfu rhai o achosion salwch hirdymor.

Hefyd dywedwyd wrth aelodau bod rhaglen Gofal yn Gyntaf sy'n cynnig cyngor parthed dewis ffordd o fyw, cydbwysedd rhwng gwaith a'r cartref a materion ariannol, ynghyd â gwasanaeth cwnsela. Roedd y gwasanaeth wedi adeiladu rhwydwaith hyfforddi ar draws y Cyngor, gan weithio gydag aelodau staff mewn ffyrdd gwahanol i wneud eu gwaith.
Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod yr Undebau Llafur yn gwerthfawrogi'r camau gweithredu mae'r Cyngor yn eu cymryd.

- Cwestiynodd yr aelodau y sylw a wnaed ar dudalen 78 parthed adborth cadarnhaol o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Cyngor yn cyflwyno ei Gynllun Llesiant, a gofynnwyd a ellid esbonio'r berthynas rhwng y Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Dywedwyd bod gan SAC gyfrifoldeb cyfreithiol, ac roeddent hefyd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mynychodd y Cyngor gyfarfodydd gyda SAC yn rheolaidd, a oedd hefyd yn deall y pwysau roedd y Cyngor oddi tano. Roedd iddynt ddwy swyddogaeth, i roi sicrwydd i'r cyhoedd bod y Cyhoedd yn gwneud beth ddylem ei wneud a rhoi gwybod i'r Cyngor ar welliant. Gallai ymgysylltiad ar bwyntiau fod wedi'i wella, gan ofyn i wasanaethau wthio pethau ymlaen. Eglurodd hefyd nad oedd hwn yn wasanaeth am ddim. Sylwodd aelodau fod angen rhagor o eglurhad ar adran hon yr adroddiad mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Trafodwyd y Mesur Perfformiad "*% o heriau i ddarpariaeth yr iaith Gymraeg wedi'u cynnal"* yr heriau a gynhaliwyd oedd 100% ond hefyd fe'i dangoswyd fel Coch. Gofynnodd yr aelodau a gollodd y Cyngor yr heriau, ac a oedd fel arfer yr un achwynwyr? Dywedwyd wrth aelodau y cynhaliwyd apeliadau felly roedd angen i gynlluniau gweithredu gael eu rhoi ar waith. Gall cwynion fod gan ystod o bobl. Rhoddwyd enghraifft lle dwy flynedd yn ôl roedd y Cyngor yn rhan o gŵyn genedlaethol parthed argaeledd gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y gŵyn ddiweddaraf ynghylch arwyddion ar y ffyrdd. Eglurodd yr Aelod Cabinet na ellid cyfieithu gwybodaeth frys mewn pryd a thynnwyd sylw ato fel mater i'r dyfodol.

  Gofynnodd yr Aelodau a effeithid ar berfformiad yn y blynyddoedd i ddod, gan y byddai angen cyflogi mwy o staff ar gyfer gwasanaethau cyfieithu. Dywedodd swyddogion fod Caerdydd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu cost-effeithiol. Yn ddiweddar cafodd gwefan y Cyngor ei chyfieithu gan Gaerdydd. Y brif broblem oedd recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, roedd hyn ar y rhaglen waith er mwyn i staff uwch edrych ar ffyrdd gwahanol o ddenu siaradwyr Cymraeg i'r Cyngor, a hefyd sut gallai staff presennol sy'n siarad Cymraeg fod wedi'u defnyddio. Hefyd dywedwyd wrth aelodau am adolygiad cadarnhaol diweddar gan gwsmer cudd. Y prif fater i Gasnewydd oedd bod â chyfran fach iawn o siaradwyr y Gymraeg. Roedd systemau a phrosesau ar waith, ond y realiti oedd bod dim ond nifer fach o bobl oedd eisiau cael eu gwasanaeth yn Gymraeg. Dywedwyd wrth yr Aelodau, o safbwynt perfformiad, pan dderbyniwyd cwynion ynglŷn â'r iaith Gymraeg, sicrhaodd y tîm yr ymdriniwyd â phob cwyn yn dda ac ni chafodd ei ailadrodd yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.

6 **Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau**

***Nododd y Pwyllgor Adolygiadau'r Cynllun Gwasanaeth Diwedd y Flwyddyn a chytunon nhw i anfon y cofnodion at y Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.***
***Roedd y Pwyllgor yn dymuno codi eu pryderon ynghylch lefelau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghasnewydd ac i hyn fod yn ganolbwynt ar gyfer gwasanaeth y Gyfraith a Rheoleiddio yn mynd ymlaen i'r flwyddyn ariannol 2019/2020.***
***Gofynnodd y Pwyllgor y câi Swyddogion yn yr Adran Gyllid eu llongyfarch am eu trefniadau cydweithio gyda sefydliadau allanol a'r Trydydd Sector yng Nghasnewydd.***
***Roedd y Pwyllgor yn gobeithio y byddai'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r***

***dinasyddion hynny yng Nghasnewydd yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn osgoi mynd i mewn i ddyled i'r Cyngor oherwydd peidio â thalu'r Dreth Gyngor. Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol i'r Cabinet ar adroddiadau cyffredinol y cynllun gwasanaeth:***

1. Nid oedd defnyddio 'Ar y Gweill' drwy gydol yr adroddiad yn galluogi'r Pwyllgor i gael mewnwelediad i lefel y cynnydd tuag at gwblhau'r cam gweithredu. Gofynnodd y Pwyllgor i ffordd arall o adrodd am y perfformiad tuag at gwblhau camau gweithredu gael ei defnyddio ar gyfer y cynlluniau gwasanaeth canol blwyddyn ac adrodd y dyfodol ar ddiwedd y flwyddyn ar y cynllun gwasanaeth.
2. Teimlai'r Pwyllgor nad oedd defnyddio gwaith busnes fel arfer fel camau gweithredu yn ffitio gyda natur y cynlluniau gwasanaeth. Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n fwy addas i'r camau gweithredu fod ag amcanion dyheadol y gallai'r gwasanaeth ymdrechu i'w cyflawni fel camau gweithredu. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i graffu'n well ar gynnydd a pherfformiad.

ng the completion of the Committee reports, the Committee will be asked to formalise its conclusions, recommendations and comments on previous items for actioning.

7 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Mynychwr:

- Daniel Cooke (Ymgynghorydd Craffu)

**1. Diweddariad ar y Rhaglen Gwaith Blaen**

***Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Rhaglen Gwaith Blaen, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod Pwyllgor nesaf:***

- Dydd Llun 24 Mehefin 2019:
  ***Adolygiad Diwedd Blwydd 2018-2019 ar y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer:***
  - Adfywio, Buddsoddi a Thai
  - Gwasanaethau'r Ddinas
- Dydd Llun 2 Medi 2019:
  - Monitro'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Gwastraff
  - Argymhellion ar gyfer Monitro wrth weithredu Cynigion Cyllideb y Cabinet 2019-20

**Cytunodd** y Pwyllgor ar y pynciau, fel uchod.

**2. Cynllun Gweithredu**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Daflen Camau Gweithredu a dywedodd wrth y Pwyllgor, fel y dangosi yn y tabl câi'r Cynllun Drafft ar Reoli Asedau'r Briffordd 2019-2024 – Casgliadau a Sylwadau ei anfon ymlaen yn ffurfiol at yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion yn dilyn cymeradwyo'r Cofnodion.

**3. Adroddiadau Gwybodaeth**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw Adroddiadau Gwybodaeth i dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

**4. Llythyrau Craffu**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw Lythyrau Craffu i dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 5.25 pm